OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2083 (Cy.223)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *24 Awst 2011*

*Yn dod i rym* *5 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:30 o'r gloch ar 5 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465

rhwng Cefn Coed y Cymer ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Hirwaun ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn cyfeirio at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad neu'r cyfyngiad, y cyfeirir ato yno, yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Awst 2011

***GARETH MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cefn Coed yr A470 hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hirwaun.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cefn Coed yr A470 hyd at ochr ddwyreiniol Traphont Nant Melyn.